Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 05-03-19**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Phyllis Purchase, Ceri Leeder, Arthur Williams, Gwenan Roberts a Delyth Wynne (Clerc)<br>Aelod o'r Cyhoedd - Tamara Davies |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Wendy Williams, Austin Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod a Tamara Davies.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (05/02/19).

   <u>Newid i'r cofnodion</u>

   - Gwilym Williams - Is Gadeirydd nid Cadeirydd;
   - Goleuadau Stryd - roedd rhai presylwyr eisiau'r goleuadau aros yr un fath, rhai eisiau'r pentref mewn tywyllwch felly roedd pylmu'r goleuadau yn ei weld fel cyfaddawd.

   Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng John. Eiliwyd gan Cyng Phyllis.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Arwydd Dim Cwn** - dal heb ei wneud.
   - **Sedd Wag y Cyngor** - dal i ddisgwyl cais.
   - **Llwybr Chwarel y Nant** - y Clerc wedi cysylltu gyda Un Llais Cymru ac yn disgwyl ymateb.
   - **Polyn Banner** – hoffai Mr Gwyn Williams leihau maint y polyn. Y Cynghorwyr yn cytuno a hyn. Hoffai hefyd gael caniatad i beidio a hedfan y fanner yn y misoedd gaeafol. Penderfynwyd lleihau maint y polyn yn gyntaf cyn gwneud penderfyniad. Hoffai Mr Williams hefyd wybod cyfnod statudol ar gyfer disgyn y banner mewn cyfnod o alaru. Fel arfer tan ar ol y angladd ond os oes cwêst penderynwyd ar 1 wythnos.
   - **Bws X19 -** Y Cadeirydd wedi cysylltu efo Llew Jones. Pwyllgor dydd Iau yma gyda Llew Jones a'r Cyngor Sir lle bydd y mater yn cael ei drafod.

6. **CYNLLUNIO**

Dim.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £5,318.54
Angladdau - £1,863.20
Cadw – £2,072.88

**Sieciau:**
- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £98.00
- HMRC - £50.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth) - £135.00
- Ceri Leeder (Lluniaeth) - £9.80

8. **GOHEBIAETH**

- **E-bost: Urdd Gobaith Cymru - Cyfraniad ariannol tuag at Eisteddfod yr Urdd 2019:**
  Penderfynwyd peidio a chyfrannu at yr Eisteddfod y flwyddyn yma.

- **E-bost: CBSC – Grwp Tasg a Gorffen Offer Chwarae:**
  Dim Cynghorydd ar gael i fod yn aelod o'r Grwp Tasg a Gorffen.

- **E-bost: Llywodraeth Cymru - Arolwg Cymru gyfan - Gwasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 2019:**
  Cyng Ceri wedi ei roi ar y dudalen 'Facebook' ac ar yr hysbysfyrddau.

- **E-bost: CVSC – Cyfleoedd Chwarae i Gynghorau Tref a Chymuned:**
  Cafwyd trafodaeth – efallai buasai Ffermwyr Ifanc Rowen yn medru trefnu.

- **E-bost: Gwasanaeth Datblygu Cymunedau – Cymunedau Taclus Conwy Wledig:**
  Y Cadeirydd i edrych i mewn i hwn ymhellach.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru – Cefnogaeth ariannu ar gael 2019/20:**
  Gwybodaeth am gyd-weithio gyda Cyngor Cymuned arall ar themau. Y Clerc i anfon y gwybodaeth i'r holl Gynghorwyr.

- **Llythyr Diolch – Pwyllgor Apel Eglwys Bach:**
  Rhannodd y Cadeirydd y llythyr gyda'r Cynghorwyr.

- **CBSC – Gwasnaeth Rhyngrwyd:**
  Cyng Austin wedi trafod hyn gyda'r Cadeirydd. Bydd cost o £60.00 y mis os yn llwyddiannus. Penderfynwyd peidio cymryd rhan yn y cais.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- **Set Coffa ar Ffordd Bryn Hir (Mr Fred Martin)** – mae'r set yn dirywio. Cyng Gwenan i son wrth y teulu.
- **Heol Ffynnon Asa** – mwy o ddwr dros y penwythnos – mwy o doniad wedi digwydd.
- **Cwyn –** fan mawr yn cael ei barcio wrth y stad mewn lle peryglus. Cyng Phyllis i drafod gyda'r perchennog.
- **Ymgynghoriad Tai Grwp Cynefin** – dros 50 o fobl wedi mynychu. Neb wedi gwrthwynebu ond rhai pryderon fel ydy'r system garffosiaeth gyda digon o gapasiti i ymgymryd a mwy o dai, y ffordd i mewn i'r pentref yn gul a'r ysgol yn llawn (80 disgybl yn barod). Bydd adroddiad yn cael ei baratoi gan Grwp Cynefin. Y Clerc i'w yrru i'r Cynghorwyr. Bydd anfoneb yn cael ei yrru i Grwp Cynefin am ddefnydd y neuadd am £30.00. Cafwyd trafodaeth dwys a bydd angen trafodaeth eto ar ol derbyn yr adroddiad.
- **Cynllunio** - Y clerc i gysylltu gyda Adran Gynllunio CBSC i ofyn bod pob gohebiaeth yn cael ei anfon at y Clerc.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

02/04/19, 07/05/19, 04/06/19, 02/07/19, 03/09/19, 01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.

Gorffennodd y cyfarfod am 8.47 o'r gloch.